

SSce
CYMRU



SUPPORTING SERVICE CHILDREN
IN EDUCATION IN WALES

CEFNOGI PLANT MILWYR MEWN
ADDYSG YNG NGHYMRU



BWLETIN MISOL

EBRILL 2026



SSce
CYMRU

 CLILC
WLGA

Negeseuon gan dîm SSCE Cymru...

“Rydym yn gobeithio y byddwch i gyd yn mwynhau gwyliau Pasg gorffwys a rhywfaint o amser i ail-lenwi. Pan fydd ysgolion yn dychwelyd, bydd tîm SSCE Cymru yn gyffrous i groesawu mis Ebrill a dathlu Mis rhyngwladol y Plentyn Milwrol. Mae'n foment arbennig bob blwyddyn i gydnabod y plant a'r bobl ifanc sydd â rhiant neu anwylyd sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog. Gyda gweithgarwch milwrol byd-eang yn parhau i effeithio ar deuluoedd ledled y byd, mae Mis y Plentyn Milwrol yn cynnig lle i fyfyrion ar yr addasrwydd a'r cryfder a ddangosir gan blant y Lluoedd Arfog. Mae hefyd yn gyfle i'w dathlu, eu cyflawniadau, eu cyfraniadau i fywyd ysgol, a'r profiadau unigryw maen nhw'n dod i'w cymunedau. Trwy gydol mis Ebrill, rydym yn annog ysgolion i greu cyfleoedd i blant y Lluoedd Arfog rannu eu straeon a chymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n tynnu sylw at eu hunaniaeth. Ewch i'n tudalen we [Mis y Plentyn Milwrol](#) am syniadau, ac os gwelwch yn dda tagiwch ni yn eich dathliadau fel y gallwn roi 'shout out' MAWR i chi. Gadewch i ni wisgo porffor a gaell pharti!”

#MotMCCymru #SSCECymru



Millie
Rheolwr
Rhaglen



Jo
Swyddog Arweiniol
Cyfranogiad




Yasmin
Swyddog
Cyswllt Ysgolion



Cara
Swyddog
Cyswllt Ysgolion



Becca
Swyddog
Cyswllt Ysgolion



Mae hyn yn gyfle i'n tîm gydnabod SEREN SSCE Cymru yn gyhoeddus, a dweud diolch i blentyn y Lluoedd Arfog, aelod o staff ysgol, cydweithwr gwaith, aelod o'r rhwydwaith neu sefydliad sydd wedi cydweithio'n gadarnhaol â ni neu wedi dangos cefnogaeth eithriadol i blant milwyr mewn addysg a'u cymuned Lluoedd Arfog lleol. Rydym yn ddiolchgar i weithio gydag unigolion a grwpiau gwirioneddol ysbrydoledig sy'n sicrhau bod plant y Lluoedd Arfog yn parhau i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u dathlu yma yng Nghymru.

Seren y mis – Ebrill 2026

Ar gyfer mis Ebrill, dyfernir Seren y Mis i HOLL blant anhygoel y Lluoedd Arfog mewn addysg ledled Cymru, gyda sôn arbennig i'r rhai a gymerodd ran yn nigwyddiadau Addewid Disgybl y Lluoedd Arfog diweddar ar gyfer awdurdodau lleol Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot.

Mae'r Addewid Disgybl y Lluoedd Arfog yn fenter sydd wedi'i chynllunio i ddathlu, cefnogi a grymuso plant a phobl ifanc sy'n gysylltiedig â'r Lluoedd Arfog trwy roi llais uniongyrchol iddynt wrth lunio'r gefnogaeth y maent yn ei dderbyn gan ysgolion ac awdurdodau lleol. Clywsom gyfraniadau gwych gan gymaint ohonoch chi, gan gynnwys Jaxon a Paislee (Ysgol Gynradd Tonnau), Nyla (Ysgol Gymraeg Calon y Cymoedd), Faith, Ava-Grace a Naveah (Ysgol Gymunedol Llangatwg), Monica (Ysgol Gyfun Brynteg), Nathaniel (Ysgol Gyfun Pencoed), ac Annabelle (Ysgol Gynradd Coety), i enwi ond ychydig!


Mae'r mewnwelediadau a rennir yn y digwyddiadau hyn yn ein helpu i adeiladu darlun clir o'r gefnogaeth sydd ar waith ar hyn o bryd ar draws ysgolion ac awdurdodau lleol, beth sy'n gweithio'n dda, a'r hyn yr hoffech ei weld mwy ohono yn y dyfodol. Diolch am weithio gyda ni. Trwy rannu eich profiadau byw, rydych chi'n ein galluogi i barhau i eirioli ar eich rhan, gan dynnu sylw at yr arfer rhagorol sydd eisoes yn digwydd mewn llawer o ysgolion a sicrhau ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i gyflawni'r addewidion a wnaed i chi.



Plant y Lluoedd Arfog yng Nghymru



i Cliciwch yma am ragor o wybodaeth am Seren y mis SSCE Cymru



ssce
CYMRU

SUPPORTING SERVICE CHILDREN
IN EDUCATION IN WALES

CEFNOGI PLANT MILWYR MEWN
ADDYSG YNG NGHYMRU

Lansiwyd menter Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog (AFFS) Cymru SSCE Cymru yn 2022. Mae ysgolion yng Nghymru yn cwblhau cyfres o weithgareddau a champau gweithredu sy'n gysylltiedig â Rhestr Wirio Ysgolion SSCE Cymru, gan gynnwys rhai elfennau gorfodol, er mwyn cyflawni eu statws Efydd, yna Arian ac yna Aur. Yr amcanion yw ymgorffori arfer da ar gyfer cefnogi plant y Lluoedd Arfog, creu amgylchedd cadarnhaol i blant y Lluoedd Arfog rannu eu profiadau ac annog ysgolion i ymgysylltu'n well â chymuned eu Lluoedd Arfog.

Y mis hwn, rydym yn falch o longyfarch yr ysgolion canlynol am gyflawni eu statws AFFS Cymru:

Efydd: Ysgol Gatholig Cardinal Newman (Rhondda Cynon Taf)

Efydd: Ysgol C.i.W Priory (Powys)


Efydd: Ysgol Willowtown (Blaenau Gwent)

Arian: Waldo Williams (Sir Benfro)

Arian: Ysgol Golwyg Pen y Fan (Powys)

Llongyfarchiadau i bob ysgol sydd wedi cyflawni eu statws Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru.


Hyd yn hyn, mae 49 o ysgolion wedi cyflawni eu statws AFFS Cymru. Mae 49 wedi ennill Efydd, 15 wedi ennill Arian a 8 wedi ennill Aur!!



49



15



8

ssce
CYMRU




Cliciwch yma i gael rhagor o wybodaeth am Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru

CLILC
WLGA

Cylchgrawn SSCE Cymru


Mae cyfnodolyn SSCE Cymru yn rhoi trosolwg o'r gweithgareddau a'r digwyddiadau y mae tîm ac aelodau'r rhwydwaith SSCE Cymru wedi bod yn rhan ohonynt. Mae'r canlynol yn rhai o'r ychwanegiadau diweddar i'r cylchgrawn.



**Addewid Disgyblion y
Lluoedd Arfog
Pen-y-bont ar Ogwr**



**Addewid Disgyblion y Lluoedd Arfog
Castell-nedd Port Talbot**



**Cyngor Sir Fynwy yn cael eu enwi
fel codwr arian y mis Little Troopers**



**Arwerthiant pobi plant y
Lluoedd Arfog yn Ysgol
Gynradd Waldo Williams**



**Sesiwn y Tîm Ymgysylltu
Milwrol Ysgol C.i.W Priory**

E-ddysgu SSCE Cymru

Ym mis Ebrill 2024, lansiodd SSCE Cymru ein pecyn hyfforddi e-ddysgu dwyieithog ar alw ar Gefnogi plant y Lluoedd Arfog mewn addysg yng Nghymru!!!

Wedi'i ariannu gan Ymddiriedolaeth Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog, mae pecyn hyfforddi e-ddysgu SSCE Cymru wedi'i gynllunio i roi'r offer a'r hyder i addysgwyr ddeall a chefnogi anghenion plant milwyr yn eu lleoliadau addysg yng Nghymru, ond gall unrhyw un a hoffai ddysgu mwy am gefnogi plant milwyr mewn addysg.

Mae'r pecyn hyfforddi AM DDIM hwn yn cynnwys naw pwnc a bydd yn cymryd tua dwy awr i'w gwblhau. Bydd eich cynnydd yn cael ei arbed fel y gallwch barhau lle gwnaethoch adael ac ailedrych ar yr hyfforddiant yn ôl yr angen.

Y pynciau sydd wedi'u cynnwys yn yr e-ddysgu yw:

- Cyflwyniad i SSCE Cymru
- Y Lluoedd Arfog yng Nghymru
- Profiadau plant y milwyr
- Addysg yng Nghymru
- Adnabod plant milwyr
- Iechyd meddwl a lles
- Gweithgareddau allgyrsiol
- Cyllid i gefnogi plant y milwyr
- Ymchwil a thystiolaeth.

“Cysylltiadau gwych y byddaf yn eu defnyddio ac yn gynhwysfawr iawn. Roeddwn i wrth fy modd â'r fideos.”

“Mae sawl rhan o'r hyfforddiant yma a fydd yn effeithio ar fy nghefnogaeth ac ymarfer o fewn fy ysgolion.”

“Roedd y clipiau llais a'r astudiaethau achos yn ddefnyddiol iawn drwyddi.”

Roedd 100% o'r cyfranogwyr o'r farn bod yr e-ddysgu'n fuddiol



ARMED FORCES
COVENANT
LLUOEDD ARFOG
CYFAMOD

Gêm nadroedd ac ysgolion SSCE Cymru



Mae tîm SSCE Cymru yn gyffrous i lansio'r adnodd newydd hwn, fel ffordd o gydnabod bod plant y Lluoedd Arfog yn wynebu profiadau cadarnhaol a heriol.

Gellir defnyddio'r gêm yn ystod gweithgareddau llais plant y Lluoedd Arfog neu fel adnodd DPP hwyliog i staff.

Mae'r dyfyniadau sydd wedi'u cynnwys ar y gêm wedi'u cymryd o rai o weithgareddau llais plant y Lluoedd Arfog yr ydym wedi'u cynnal dros y flwyddyn ddiwethaf.

Fe wnaethon ni fwynhau chwarae fersiwn maint llawr mawr o'r gêm nadroedd ac ysgolion yn ein Gwyliau'r Lluoedd Arfog a gynhaliwyd ledled Cymru ddiwedd 2025.

Cysylltwch â SSCECymru@wlga.gov.uk am gêm nadroedd ac ysgolion AM DDIM ar gyfer eich ysgol



Adnoddau SSCE Cymru

Cefnogi plant mewn cyfnod o wrthdaro

Mae gan SSCE Cymru dudalen we sy'n ymroddedig i ddarparu adnoddau sy'n berthnasol i gefnogi plant a phobl ifanc yn ystod cyfnod o wrthdaro.

Er bod rhai o'r adnoddau yn cyfeirio at wrthdaro penodol, gellir cymhwyso llawer o'r adnoddau i wrthdaro eraill. Mae amseroedd o wrthdaro ac argyfwng yn effeithio ar lawer o deuluoedd, gwasanaeth a sifil, ac mae cymuned ysgol yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau bod ein teuluoedd yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu cefnogi yn ystod cyfnod a allai fod yn heriol.

Mae rhai o'r adnoddau sydd wedi'u cynnwys ar y dudalen we yn cynnwys:

- [SSCE Cymru: Adnoddau a argymhellir Padlet](#)
- [UNICEF: Sut i siarad â'ch plant am wrthdaro a rhyfel](#)
- [Childline: Pryderon am y byd](#)
- [Achub y Plant: Sut i siarad â phlant am ryfel](#)
- [Barnardos: Siarad â phlant am ryfel](#)
- [Cymdeithas Seicolegol Prydain: Cefnogi plant i reoli pryder dros ryfel, gwrthdaro ac argyfyngau](#)
- [Place2Be: Siarad â phlant a phobl ifanc am ryfel a gwrthdaro](#)



ssce:
CYMRU



Mis y Plentyn Milwrol

Month of the Military Child



Ebrill/April | #MotMCCymru

Mae Ebrill wedi'i ddynodi fel Mis y Plentyn Milwrol, sy'n tynnu sylw at y rôl bwysig y mae plant y Lluoedd Arfog yn ei chwarae yng nghymuned y Lluoedd Arfog. Mae'n amser i gymeradwyo teuluoedd y Lluoedd Arfog a'u plant am yr aberth dyddiol maen nhw'n ei wneud a'r heriau maen nhw'n eu goresgyn.

Sut y gall ysgolion gymryd rhan...

- Deall
- Ymgysylltu
- Dathlu



Gweler mwy
o wybodaeth
yma

ssce: SUPPORTING SERVICE CHILDREN
IN EDUCATION WALES
CYMRU CYNORTHWYO PLANT MILWYR
YN YSGOLION CYMRU

Mis y Plentyn
Milwrol

Month of the
Military Child

Ebrill/April | #MotMCCymru



Little Troopers

Gweithdai rhithwir

Mae Little Troopers wedi creu tair weithdy ar-lein am ddim gyda'r nod o ddod â phlant y Lluoedd Arfog ynghyd i archwilio'r heriau a'r cyfleoedd unigryw y maent yn eu profi, ac i ddathlu'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn 'Little Trooper'.

Mae'r sesiynau'n cael eu recordio ymlaen llaw fel digwyddiad 'byw', a ddarperir gan dîm profiadol o hwyluswyr gan ddefnyddio adnoddau ysgolion cynradd Little Troopers sy'n ymgorffori adrodd straeon, symud, trafodaeth grŵp a chwarae rôl. Mae'r gweithdai ar agor i holl blant y Lluoedd Arfog yn eich lleoliad oedran cynradd ac yn addas ar gyfer grwpiau o unrhyw faint.

Cysylltwch â ni SSCECymru@wlga.gov.uk am ragor o wybodaeth ac adnoddau.



Llyfrau dwyieithog

Mae'r chwe llyfr dwyieithog hyn, a ysgrifennwyd o safbwynt plentyn y Lluoedd Arfog, yn ychwanegiad gwych i lyfrgell eich ysgol i blant sydd ag un rhiant neu rhieni yn gwasanaethu yn Lluoedd Arfog Prydain. Mae gan bob un o'r chwe llyfr godau QR lle gallwch glywed y sain Cymraeg yn cael ei ddarllen.

Cysylltwch â SSCECymru@wlga.gov.uk i ofyn am set AM DDIM o lyfrau ar gyfer eich ysgol.



Mis y Plentyn Milwrol

Month of the Military Child



Ebrill/April | #MotMCCymru

Dyma rai enghreifftiau o sut roedd ysgolion ac awdurdodau lleol ledled Cymru yn dathlu Mis y Plentyn Milwrol yn 2025!
Peidiwch ag anghofio anfon eich lluniau at SSCECymru@wlga.gov.uk, fel y gellir eu hychwanegu at wefan SSCE Cymru.



Cliciwch yma i weld manylion gweithgareddau #MotMCCymru



Mis y Plentyn Milwrol

Month of the Military Child

Ebrill/April | #MotMCCymru



Pam porffor? 💜

Dewiswyd porffor oherwydd ei fod yn symbol o holl ganghennau'r fyddin, cyfuniad o wyrdd y fyddin, glas yr awyrlu a'r gwarchodwr y glannau, coch y morol a las y llynges.



Diwrnod 'Porffor i fyny'!!

Dydd Gwener 24ain Ebrill yw'r diwrnod i 'Porffor i fyny' ar gyfer Mis y Plentyn Milwrol!

- Gwisgwch borffor
- Creu gwaith celf ac arddangosfeydd porffor
- Tynnwch lun o'r hyn rydych chi'n ei wneud
- Anfonwch eich lluniau i SSCECymru@wlga.gov.uk
- Postiwch eich llun/iau ar y cyfryngau cymdeithasol (tagiwch @SSCECymru ar X a Facebook) gan ddefnyddio'r hashnod #MotMCCymru – gyda neges i blant y Lluoedd Arfog, gan ddiolch iddynt am eu rôl bwysig yng nghymuned y Lluoedd Arfog.

i Cliciwch yma i weld sut mae eraill wedi cymryd rhan mewn diwrnod 'Porffor i fyny' yn y blynyddoedd blaenorol



ssce
CYMRU



CLIC
WLGA

Mis y Plentyn
Milwrol

Month of the
Military Child



Ebrill/April | #MotMCCymru

Bathodynnau Mis y Plentyn Milwrol!!

Mae gennym stoc o fathodynnau porffor Mis y Plentyn Milwrol, ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Os hoffech rai bathodynnau AM DDIM i chi'ch hun, cydweithwyr a phlant y Lluoedd Arfog yn eich ysgol, rhowch wybod i ni faint o bob iaith yr hoffech chi, a byddwn yn anfon drosodd i chi mewn pryd i'w gwisgo drwy gydol mis Ebrill.

Cysylltwch â SSCECymru@wlga.gov.uk i ofyn am fathodynnau



Cyllid...


Cyllid Llywodraeth Cymru

Yn 2026/27, mae Cyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar gyfer tîm llawn SSCE Cymru (Rheolwr Rhaglen, Swyddogion Cyswllt Ysgolion a Swyddog Arweiniol Cyfranogiad). Bydd cyllid yn parhau i fod ar gael i ysgolion ac awdurdodau lleol yng Nghymru drwy'r rhaglen gymorth Rheoli Achosion a'r cynllun grant. Manylion llawn i'w cadarnhau ym mis Medi 2026.



Cymorth rheoli achosion SSCE Cymru

Mae rheoli achosion ar gael i ysgolion sydd â phlentyn Lluoedd Arfog unigol neu nifer fach iawn o blant Lluoedd Arfog sydd ag angen penodol sy'n gysylltiedig ag effaith ffordd o fyw eu Lluoedd Arfog.

 Gweler mwy o wybodaeth yma

Ddogfen cyngor ariannol SSCE Cymru

Mae'r dogfennau hyn yn darparu cyngor gan dîm SSCE Cymru ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol, i'w cynorthwyo wrth wneud cais am gyllid i gefnogi plant y Lluoedd Arfog / cymuned leol y Lluoedd Arfog. Mae'r rhestr wirio yn cynnwys camau gweithredu a awgrymir i helpu wrth baratoi a chwblhau cais am gyllid. Mae'r ddogfen syniadau ac awgrymiadau yn cynnwys enghreifftiau o weithgareddau y gallai ymgeiswyr eu hymgorffori fel rhan o brosiectau a ariennir i gefnogi plant y Lluoedd Arfog.


Ar gael yma

Sesiynau galw heibio ariannol

Nod y sesiynau galw heibio anffurfiol hyn yw cefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol yng Nghymru i gael mynediad at gyllid i gefnogi plant y Lluoedd Arfog mewn addysg.

Sesiynau galw heibio sydd i ddod:

Dydd Iau 26 Mawrth 09:00-10:00
Dydd Mawrth 14 Ebrill 15:30-16:30
Dydd Mercher 22 Ebrill 09:00-10:00

 Gweler mwy o wybodaeth yma

Cyllid...

Armed Forces Education Trust

Mae'r rhaglen Grantiau ar y Cyd yn hapus i ystyried ceisiadau ar draws sbectrwm o grantiau bach rhwng £1,000 a £5,000 i grantiau llawer mwy sydd wedi'u cynllunio i gefnogi grwpiau mwy o blant y Lluoedd Arfog.

Blaenoriaethau eleni yw:

- Lleihau effaith negyddol symudedd a lleoli ar ddysgu.
- Cefnogi plant y Lluoedd Arfog gydag anghenion addysgol ychwanegol.
- Galluogi pontio llyfn rhwng ysgolion a systemau addysg.
- Gweithio gydag ysgolion a chymunedau i gefnogi plant y Lluoedd arfog i wella eu canlyniadau addysgol.



Gweler rhagor o wybodaeth yma

DYDDIAD
CAU: 8 Mai

NODER: Efallai y bydd yr AFET hefyd yn gallu helpu gyda grant i gynorthwyo plentyn unigol i oresgyn anawsterau sy'n gysylltiedig â gwasanaeth a symudedd eu rhieni.

Service Pupil Support programme 2027

Bydd y rhaglen 'Service Pupil Support Programme' (SPS) y Weinyddiaeth Amddiffyn yn dyfarnu grantiau at brosiect annibynnol sy'n cael ei gyflwyno dros gyfnod o hyd at ddwy flynedd, i gefnogi plant y Lluoedd Arfog ar hyd eu llwybr addysgol.

Mae'r rhaglen SPS yn agored i ysgolion, lleoliadau Addysg Bellach ac awdurdodau lleol.

NODER: Anogir ysgolion i weithio ar y cyd a gwneud cais mewn clwstwr.



Gweler rhagor o wybodaeth yma

Themâu ar gyfer prosiect 2027 yw:

- Cau'r bwch.
- Cymorth i ddisgyblion gydag ADY.
- Symudedd, lleoli a gwahanu.
- Niferoedd isel o ddisgyblion y Lluoedd Arfog.

DYDDIAD
CAU: 30
Medi